

# CYNGOR TREF Y BALA TOWN COUNCIL

---

Swyddfa'r Cyngor, Yr Henblas, Stryd Fawr, Y Bala, Gwynedd LL23 7AE

Ffôn: Tel: 07896964120

[cyngorvbala@outlook.com](mailto:cyngorvbala@outlook.com)

*Y Maer: O Rhys Evans Mayor*



## Cofnodion Cyfarfod Blynyddol 2021-22

**Mai 6ed, 202 am 7.00pm o'r gloch mewn cyfarfod StarLeaf**

**Presennol: Presennol:** Y Maer Eifion Roberts, Y Dirprwy Faer Rhys Evans, Dilys Evans, Sharon Evans, Elin Hedd, Eluned Jones, Tony Parry, Alun Price, John Caradog Williams (ffôn)

*Hefyd yn bresennol:* Cynghorydd Dilwyn Morgan (Cyngor Gwynedd), Lis Puw (Clerc).

Ymddiheuriadau: Ivora Jones, Carol Rowlands

Wrth gloriannu ei gyfnod fel Maer, cyfeiriodd Eifion Roberts at ddau uchafbwynt sef agor Ysgol Godre'r Berwyn a chydweithio gyda'r Cynghorydd Sir a'r Awyrlu i osod adnewyddu'r gofeb ar ben yr Arennig i gofio am y rhai a gollodd eu bywydau mewn damwain awyren yn ystod yr ail rhyfel byd. Bu'n ddwy flynedd anodd oherwydd amgylchiadau Covid 19, ond roedd wedi cefnogi trigolion Cysgol y Coleg ac Awel y Coleg. Rhoddodd gefnogaeth hefyd i'r Rotari a'r Lleng Brydeinig. Cyflwynodd Gwobr y Maer yn Ysgol Godre'r Berwyn, gwobr ariannol i ddau ddisgybl sy'n gweithio yn y gymuned. Ymfalchiodd hefyd fod y Seiri Rhyddion wedi cydweithio gyda'r Cyngor i ddarparu di-ffib ynn y ciosg yng nghanol y dref. i orffen, diolchodd i'r Cynghorwyr am eu teyrngarwch a'u hymdrechio gyda Zoom ac i'r Clerc am ei gwaith. Dymunodd yn dda iawn i'r Maer newid.

- 1 Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion Cyfarfod Blynyddol 2020.
- 2 Etholwyd O Rhys Evans yn Faer am y flwyddyn 2021-22
- 3 Enwebwyd Carol Rowlands yn Ddirprwy Faer (yn ei habsenoldeb) am y flwyddyn 2021-22
- 4 Penodwyd Cynghorwyr i weithredu ar is bwyllgorau (*gw. isod*).
- 5 Enwebwyd Alun Price yn gynrychiolydd y Cyngor ar Bwyllgor Ardal Un Llais Cymru.
- 6 Enwebwyd 4 cynrychiolwyr ar Bartneriaeth Penllyn (*gweler isod*).
- 7 Adolygwyd a chadarnhawyd Rheolau Sefydlog y Cyngor.

- 8 Adolygwyd a chadarnhawyd Côt Ymddygiad y Cyngor.
- 9 Adolygwyd a chadarnhawyd Rheoliadau Ariannol y Cyngor.
- 10 Adolygwyd rhestr eiddo ac asedau'r Cyngor.
- 11 Apwyntiwyd Luned Fôn o Gyngor Gwynedd fel Archwilydd Mewnol 2021-22
- 12 Cadarnhawyd dyddiadau cyfarfodydd 2021-22 (gw. isod)

CYNGOR TREF Y BALA – CYNRYCHIOLWYR 2020- 21:

Pwyllgor / Pwnc / Cynrychiolydd	Cynrychiolydd / Llefarydd
<b>Aelodau is-bwyllgorau</b>	
Is- Bwyllgor Cyllid	Dilys Evans, Eifion Roberts, Rhys Evans
Is bwyllgor Addurniadau Nadolig	Alun Price, Eluned Jones, Rhys Evans, Sharon Evans, Elin Hedd, Carol Rowlands, Dilwyn Morgan,
<b>Cynrychiolwyr o'r Cyngor</b>	
Canolfan Bro Tegid	Dilys Evans, Sharon Wyn Evans
Un Llais Cymru	Alun Price
Cymdeithas Chwaraeon Bala a Phenllyn	Tony Parry, J C Williams
Grwp Siopau	Sharon Evans/Eluned Jones /Carol Rowlands
Mynediad i'r anabl	Eluned Jones
Partneriaeth Penllyn	<b>Cyfarwyddwyr y Cwmni a Partneriaeth Penllyn: Alun Price, Rhys Evans</b>  Pwyllgor y Bartneriaeth: Dilys Evans, John C Williams
Cyfoeth Naturiol Cymru	Tony Parry

Dyddiadau Cyfarfodydd 2021-22

6/5/21	4/11/21
3/6/21	9/12/21
1/7/21	6/1/22
2/9/21	3/2/22
7/10/21	3/3/22                      7/4/22